

Cynllun Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam 2020-23



[Beth yw Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam?](#)

Mae gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam gyfrifoldeb statudol i gynnal adolygiad blynyddol o drosedd ac anrhefn, a bod yn ymwybodol o natur trosedd ac anrhefn, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chamddefnyddio cyffuriau o fewn y fwrdeistref sirol. Bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cyfeirio adnoddau i

fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd, ac yn cydweithio i ddod o hyd i, a gweithredu datrysiadau effeithiol. Bydd y cynllun hwn yn egluro sut fydd hyn yn digwydd.

Mae aelodau'r Bartneriaeth yn cynnwys:

- Heddlu Gogledd Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam
- Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru
- CEM Berwyn

Ein Dulliau Gweithio

Mae ein dulliau gweithio wedi'u harwain gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gofyn i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod nhw'n ystyried effaith eu penderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol (yr egwyddor datblygu cynaliadwy). Fel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol rydym ni'n dilyn y pum ffordd o weithio a nodir yn y ddeddf i sicrhau ein bod ni'n gweithio mewn ffordd gynaliadwy:

- **Hirdymor** - Byddwn yn cydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu ein gallu i gwrdd ag anghenion mwy hirdymor
- **Atal** - Byddwn yn gweithio, lle bo modd, i atal problemau rhag codi neu waethygu
- **Integreiddio** - Byddwn yn ystyried sut mae ein cynlluniau a'n camau gweithredu unigol a chyfunol yn effeithio ar wahanol ganlyniadau a materion
- **Cydweithio** - Byddwn yn cydweithio a phobl a sefydliadau sy'n gallu ein helpu i gyflawni ein hamcanion cyffredin
- **Cyfranogi** - Byddwn yn gweithio i gynnwys pobl â diddordeb mewn cyflawni ein hamcanion, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth ein bwrdeistref sirol

Yn ogystal â'r dulliau gweithio uchod, byddwn yn sicrhau bod y gwaith a wnawn yn:

- Ystyried tystiolaeth a gwybodaeth
- Derbyn cefnogaeth gan bobl fedrus a gwybodus
- Derbyn adnoddau digonol ac yn briodol i'r ardal leol
- Cynnwys ac yn ymgysylltu â dinasyddion
- Ataliol ac yn ymyrryd mor fuan â phosibl
- Canolbwyntio ar welliannau a buddion hirdymor

Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu ar y cyd â:

Blaenoriaethau Heddlu Gogledd Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (2017 – 2021).

Mae Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi 5 blaenoriaeth ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru:

- Cam-drin Domestig
- Caethwasiaeth Fodern
- Troseddau Cyfundrefnol
- Cam-drin Rhywiol (gan gynnwys Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant)
- Sicrhau Cymdogaethau Mwy Diogel

Blaenoriaethau'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar gyfer 2020-2023

Bydd sefydliadau a phartneriaid yn parhau i weithio ar wella bywydau a phrofiadau pobl sy'n byw ac yn gweithio yn Wrecsam ac yn ymweld â Wrecsam mewn nifer fawr o ffyrdd; fodd bynnag, fel partneriaid rydyn ni wedi ymrwymo'n benodol i gydweithio ar y blaenoriaethau canlynol dros y tair blynedd nesaf:

1. Creu cymdogaethau mwy diogel
2. Lleihau effeithiau niweidiol alcohol a sylweddau eraill
3. Cefnogi pobl ddiamddiffyn
4. Sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel

Byddwn yn gweithio i fynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol sy'n codi yn ystod ac ar ôl y pandemig Covid-19, ac yn ystyried ei effaith hirdymor ar ein cymunedau.

Creu cymdogaethau mwy diogel

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym:

Mae **Proffil Cymunedol 2019** wedi'i lunio ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r proffil hwn wedi'i fwriadu i roi gwybod i bob partneriaeth amlasiantaeth, yn enwedig Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, awdurdodau lleol a phartneriaid perthnasol eraill fel Addysg, Iechyd a Thai am fygythiad trosedd cyfundrefnol difrifol a'r effaith mae'n ei chael ar gymunedau lleol.

Yn aml, mae gan ardaloedd lle mae trosedd cyfundrefnol yn broblem nodweddion cyffredin fel lefelau uchel o amddifadedd, tlodi plant, cyfraddau troseddu, diweithdra, dibyniaeth ar fudd-daliadau a lefelau isel o incwm teuluol.

Mae Mynegai Ardaloedd Dan Fygythiad o 6 ffactor cymdeithasol-ddemograffig (nifer yr achosion o ddwyn o annedd; nifer yr achosion o ddifrod troseddol i annedd; sgôr amddifadedd incwm; sgôr amddifadedd cyflogaeth; cyfrif o boblogaeth darged; cyrhaeddiad addysgol) wedi nodi ardaloedd sy'n debygol o fod angen sylw gan asiantaethau cyhoeddus fel blaenoriaeth. Mae'r ardaloedd hyn sydd dan fygythiad yn creu galw anghymesur o fawr ar asiantaethau gorfodi'r gyfraith a'u partneriaid ac mae gorgyffwrdd sylweddol o ddigwyddiadau sydd yn ymddangos heb gysylltiad, o gamweddau lefel isel hyd at drosedd cyfundrefnol difrifol, sy'n digwydd mewn rhannau penodol o'n cymunedau.

Pam mae hyn yn flaenoriaeth i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:

Mae adeiladu cymuned gydlynol yn hanfodol er mwyn darparu amgylchedd a fydd yn rhoi cyfran deg i bob rhan o'r gymuned o'i llwyddiannau a'i dyfodol ac yn rhoi iddi'r gwytnwch i amddiffyn a diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

Byddwn yn parhau i hwyluso'r **Panel Diamddiffyn a Rheoli Risg**, sy'n cydlynu ymateb datrys problemau amlasiantaethol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwarchod unigolion, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl.

Byddwn yn sefydlu gweithgor i ystyried problem **troseddau â chyllyll**; bydd yn ceisio addysgu a chodi ymwybyddiaeth ynglŷn â pheryglon cario cyllyll, yn enwedig ymysg pobl ifanc.

Mae **Grwpiau Cynghori ar Ddiogelwch** yn cael eu sefydlu ar gyfer pob digwyddiad cyhoeddus mawr (e.e. cyngherddau, digwyddiadau chwaraeon). Mae'r Grwpiau'n gweithredu ar sail ymgynghorol, gan ddarparu cyngor diogelwch cyhoeddus annibynnol i drefnwyr digwyddiadau. Mae Wrecsam yn gweld cynnydd mewn digwyddiadau mawr fel cyngherddau sy'n cael eu cynnal mewn lleoliadau fel y Cae Ras, ystod eang o ddigwyddiadau chwaraeon gan gynnwys marathonau a thriathlonau a digwyddiadau codi arian. Mae Wrecsam yn croesawu digwyddiadau o'r fath sy'n cyfrannu at gymuned fywiog, ond mae eisiau sicrhau bod y rhain yn cael eu gwneud mor ddiogel â phosib' a bod y trefnwyr yn cymryd pob cam rhesymol i leihau unrhyw risgiau i'r cyhoedd.

Proffiliau Cymunedol – Datblygu argymhellion mewn perthynas â chreu cymdogaethau mwy diogel, gydag asiantaethau partner, sy'n codi o'r dystiolaeth yn y Proffil Cymunedol ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam.

Cronfa Strydoedd Mwy Diogel – sydd wedi'i bwriadu i leihau trosedd meddiangar mewn ardaloedd sy'n cael eu targedu, gan wneud i drigolion deimlo'n fwy diogel a lleihau'r galw ar yr heddlu.

[Sut fydd llwyddiant yn edrych:](#)

Panel Diamddiffyn a Rheoli Risg

- Nifer yr achosion a atgyfeirir at y Panel
- Nifer y datrysiadau llwyddiannus
- Nifer yr asiantaethau sydd ynghlwm â'r Panel

Grwpiau Cyngori ar Ddiogelwch

- Nifer y Grwpiau Cyngori a gynhelir
- Nifer y sesiynau adrodd a gynhelir

Cronfa Strydoedd Mwy Diogel

- Angen cytuno ar fesurydd, yn amodol ar gais llwyddiannus am gyllid.

Lleihau effeithiau niweidiol alcohol a sylweddau eraill

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym:

Mae tystiolaeth o 2018 ar gyfer Wreccsam yn dweud:

- Bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cael gwybod am 364 o droseddau oedd yn ymwneud ag alcohol
- Mewn achosion o drais yn ymwneud ag alcohol, bod bron i 42% o ddioddefwr yn briod â neu'n bartner i'r troseddwr. O'r troseddau hyn, digwyddodd bron i ddwy ran o dair yn y cartref (65%), 18% mewn man agored cyhoeddus a 12% mewn sefydliadau lletygarwch.
- O blith y troseddwr ynghlwm â thrais yn ymwneud ag alcohol, roedd 71.6% yn ddynion a 28.4% yn ferched. Y prif grŵp oedran ar gyfer trais yn ymwneud ag alcohol oedd 25-34 oed.

Rydyn ni hefyd yn gwybod bod camddefnyddio alcohol yn cynyddu'r risg o anafiadau, absenoliaeth, perfformiad gwael a diweithdra, ac mae'n costio tua £25 biliwn i Gymru bob blwyddyn mewn costau gofal iechyd, trosedd ac o golli cynhyrchiant.

Yn 2017/18, roedd amcangyfrif o 11,682 o achosion o dderbyn pobl i'r ysbyty yng Ngogledd Cymru y gellid eu priodoli i alcohol.

Yn astudiaeth Iechyd a Lles Myfyrwyr Wreccsam yn 2017/18, dywedodd 48% o blant oed ysgol uwchradd eu bod yn yfed alcohol, a dywedodd dros 60% o'r disgyblion hynny eu bod wedi bod yn feddw erbyn yr oeddent yn 15 oed.

Nodai Asesiad o Anghenion Camddefnyddio Sylweddau Gogledd Cymru gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2019) bod 46 o achosion o wenwyno marwol o gyffuriau yn flynyddol yn y rhanbarth ar gyfartaledd (gan gynnwys o gyffuriau nad ydynt yn cael eu rheoli, sy'n cynnwys meddyginiaeth bresgripsiwn a thros y cownter) ac roedd 30 o'r rheini'n cynnwys 'camddefnyddio' cyffuriau (sylweddau dan reolaeth). Ar ben hynny, cofnodwyd 59 o bobl ag anhwylderau meddyliol ac ymddygiadol yr oedd a wnelont â chyffuriau heblaw am alcohol wedi'u rhyddhau o'r ysbyty (rhwng Hydref 2017 a Medi 2018)

Mae tystiolaeth hefyd yn dweud wrthym ni fod cysylltiad annatod rhwng cyflenwi cyffuriau a grwpiau trosedd cyfundrefnol. Mae'r grwpiau hyn hefyd ynghlwm â mathau eraill o droseddu, gan gynnwys masnachu mewn pobl, caethwasiaeth fodern a chamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Pam mae hyn yn flaenoriaeth i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:

Mae'r niwed sy'n deillio o gamddefnyddio alcohol a sylweddau'n cael effaith enfawr ar ein cymdeithas, ac ar y gwasanaethau mae partneriaid y Bartneriaeth hon yn eu darparu. Er enghraifft, bydd lleihau camddefnydd o sylweddau'n cael effaith gadarnhaol ar iechyd corfforol a meddyliol pobl; ar sefyllfa gyflogaeth a thai pobl. Byddai lleihau camddefnydd o sylweddau'n gwella bywydau a chyflawniad addysgol llawer o blant.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

Bydd partneriaid y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cydweithio i gyflawni'r ymrwymadau a oedd yn y **Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol** a ddatblygwyd yn ddiweddar:

[Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol Gogledd Cymru](#)

Byddwn yn gweithio gyda mannau trwyddedig lleol i hyrwyddo rheoli a chadw safleoedd sydd â thrwydded alcohol yn gyfrifol (trwy'r cynllun achrededig, Braff Bob Nos).

Byddwn yn parhau i ddarparu cymorth lles a chymorth cyntaf i'r bobl hynny sydd ar nosweithiau allan yng nghanol tref Wrecsam, trwy **Ganolfan Les Hafan-y-dre**.

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yng Ngogledd Cymru i hyrwyddo'r neges **Yfed Llai, Mwynhau Mwy**.

Byddwn yn cefnogi cyflwyno'r **Prosiect Allgymorth Cydweithredol**, i gefnogi'r rhai sydd ag anghenion cymhleth (yn cynnwys camddefnyddio sylweddau) i ymgysylltu â'r gwasanaethau hynny sy'n gallu cynnig cymorth, atebion a thriniaeth.

Byddwn yn cynnal **sesiynau cyffuriau ac alcohol** ym mhob ysgol uwchradd (trwy addysg bersonol a chymdeithasol), gan drafod gwybodaeth am ganlyniadau iechyd, troseddol a chymdeithasol defnyddio cyffuriau ac alcohol.

Er mwyn deall mwy am y lefelau o ddefnydd o gyffuriau yn Wrecsam a faint o gyffuriau sy'n cael eu gwerthu, byddwn yn edrych ar sefydlu proses i gasglu data am hyn.

Sut fydd llwyddiant yn edrych:

- Llai o bobl yn mynd i'r ysbyty oherwydd alcohol a/neu gyffuriau
- Llai o droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, lle mae alcohol a chyffuriau'n rhannol gyfrifol.
- Llai o drais yn gysylltiedig ag alcohol a/neu gyffuriau.
- Dod o hyd i unigolion sy'n cael eu hystyried i fod mewn perygl a'u galluogi i fanteisio ar wasanaethau allweddol neu gadw cysylltiad â nhw.
- Nifer uwch o unigolion (sy'n amlwg yn agored i niwed) yn defnyddio gwasanaethau.
- Llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol tref Wrecsam.

Cefnogi Pobl Ddiamddiffyn

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym:

Fel y nodwyd yn y bennod ar Gymunedau Mwy Diogel, rydyn ni wedi defnyddio tystiolaeth o Broffil Cymunedol 2019 ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam.

Mae camfanteisio ar unigolion a grwpiau (plant ac oedolion) yn nodwedd o drosedd cyfundrefnol difrifol. Yn aml, mae gan ardaloedd lle mae trosedd cyfundrefnol yn broblem nodweddion cyffredin fel lefelau uchel o amddifadedd, tlodi plant, cyfraddau troseddu, diweithdra, dibyniaeth ar fudd-daliadau a lefelau isel o incwm teuluol.

Mae **cam-fanteisio troseddol ar blant** yn rhywbeth sydd ar gynydd yng Ngogledd Cymru, yn bennaf yn ymwneud â gangiau Llinellau Sirol¹. Mae plant sy'n dioddef camfanteisio troseddol fel arfer yn fregus yn barod, gyda phethau fel problemau iechyd meddwl, dibyniaeth ar sylweddau, awyrgylch ddi-drefn gartref, ac yn aml ar goll o'u cartref.

Mae gangiau cyflenwi cyffuriau'n defnyddio **cartrefi pobl ddiamddiffyn** yn beth cyffredin yn yr ardal, gyda 31 o gyfeiriadau wedi'u canfod yn 2019-20². Rydyn ni hefyd yn gwybod bod bron i 70% o gyfeiriadau cartrefi pobl ddiamddiffyn sy'n cael eu defnyddio ynghlwm â chyffuriau'n gartref i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, ac mae gan bron i 30% o'r cyfeiriadau blant yn byw ynddynt.

Gall **Caethwasiaeth Fodern** ddigwydd ar sawl ffurf, ond mae tystiolaeth yn dangos ein bod ni yng Ngogledd Cymru yn gweld cynnydd mewn 'camfanteisio ar weithwyr' (h.y. pobl yn cael eu gorfodi i wneud gwaith penodol am ychydig neu ddim gwobr ariannol). Mae enghreifftiau rydym yn gwybod amdanynt yn cynnwys: gweithio fel glanhawr ceir, mewn siopau trin ewinedd, mewn bwyta neu ddanfon bagiau elusennol.

Yn aml, mae'n anodd cael euogfarn ar gyfer troseddau Caethwasiaeth Fodern, i raddau helaeth oherwydd diffyg tystiolaeth neu ddioddefwyr sy'n gwrthod cydweithredu. Mae nifer o ddioddefwyr yn anfodlon cyfaddef neu nid ydynt yn deall eu bod yn destun camfanteisio, ac os ydynt, maent yn amharod i gefnogi erlyniad unwaith y maent yn rhydd rhag eu camfanteiswyr.

Mae **Prevent** yn rhan o strategaeth wrthderfysgaeth y DU (CONTEST). Mae asiantaethau partner fel yr heddlu, cynghorau a'r gwasanaethau iechyd yn gweithio gyda phobl Gogledd Cymru i atal unigolion rhag dod yn neu gefnogi terfysgwyr trwy greu cymunedau cryfach, mwy diogel sy'n teimlo bod y gallu ganddynt i ymwrthod â therfysgaeth yn ei holl ffurfiau. Mae cymunedau cydlynol yn gryfach yn wyneb eithafiaeth a radicaliaeth.

¹ 'Llinellau Sirol' yw'r term sy'n cael ei ddefnyddio pan mae gangiau cyffuriau o ddinasoedd mawr yn ehangu eu gweithredoedd i drefi llai, gan ddefnyddio trais yn aml i gael gwared â delwyr lleol a chamfanteisio ar blant a phobl ddiamddiffyn i werthu cyffuriau. Ar adeg ysgrifennu (Mawrth 2020) dim ond un Llinell Sirol y gwyddid amdani yn Wrecsam.

² Dyma ffurf ar drosedd a elwir yn Saesneg yn 'cuckooing' lle mae delwyr cyffuriau'n meddiannu cartref person diamddiffyn er mwyn ei ddefnyddio fel canolbwynt i ddelio mewn cyffuriau.

Pam mae hyn yn flaenoriaeth i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:

Mae gan bob partner ddyletswydd i ddiogelu'r rhai sy'n llai abl i'w gwarchod nhw eu hunain, yn rhannol am fod pobl ddiamddiffyn yn gallu bod mewn mwy o berygl o fod yn ddiodefwr mewn trosedd. Fel partneriaeth, rydyn ni wedi ymrwymo i gydweithio i nodi a gwarchod rhai o'r grwpiau mwyaf diamddiffyn yn ein cymdeithas.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- Datblygu argymhellion mewn perthynas â chefnogi pobl ddiamddiffyn gydag asiantaethau partner sy'n codi o'r dystiolaeth yn y Proffil Cymunedol ar gyfer Sir y Fflint a Wrecsam.
- Datblygu proses lle gall partneriaid ddod o hyd i unigolion sydd fwyaf mewn perygl o fod yn destun cam-fanteisio trwy feddiannu eu cartref i ddelio cyffuriau, er mwyn cyfeirio cymorth ac ymyraethau i atal hyn.
- Datblygu hyfforddiant a/neu gyfeirio at hyfforddiant sydd ar gael eisoes, a gweithio i godi ymwybyddiaeth o **Gaethwasiaeth Fodern** ymysg ein sefydliadau ein hunain, busnesau lleol a'r cyhoedd.
- Gweithio gyda phartneriaid i weithredu'r argymhellion sydd wedi'u nodi gan ddefnyddio pecyn gwaith Dyletswydd **Prevent** y Swyddfa Gartref sydd wedi'i gynllunio i gefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid yn eu gwaith i warchod pobl ddiamddiffyn rhag radicaliaeth.
- Parhau i fonitro gwaith ar ddatblygu a gweithredu Rhaglenni **Camau Cynnar gyda'n Gilydd** a **Theuluoedd sy'n Cael eu Heffeithio gan Garchariad**.

Sut fydd llwyddiant yn edrych?

- Cytuno ar argymhellion gydag asiantaethau partner sy'n deillio o'r Proffil Cymunedol.
- Dod o hyd i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn destun cam-fanteisio ar ffurf gangiau'n meddiannu eu cartrefi.
- Llai o gyfeiriadau yn Wrecsam ynghlwm ag achosion o'u meddiannu i werthu cyffuriau.
- Mwy o ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth fodern.
- Mwy o adroddiadau am bryderon ynglŷn â chaethwasiaeth fodern.
- Gweithredu argymhellion sydd wedi'u pennu trwy becyn gwaith Prevent.

Pobl yn teimlo'n ddiogel

Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym:

Cafwyd cyfanswm o 1,608 o ymatebion i'r ymgynghoriad ar Ymdeimlad o Ddiogelwch yn 2019/20. Roedd dadansoddiad o'r canlyniadau'n dangos bod y rhan fwyaf o drigolion Wrecsam a gymerodd ran yn teimlo'n ddiogel/diogel iawn yn eu cartref (88%) neu'n cerdded yn eu ward leol yn ystod y dydd (71%), ond roedd y mwyafrif yn teimlo'n anniogel wrth gerdded ar eu pennau eu hunain pan oedd hi'n dywyll (53%).

Pan holwyd hwy am eu hymdeimlad o ddiogelwch yng nghanol y dref, dywedodd canran uchel o unigolion eu bod yn teimlo'n anniogel/anniogel iawn wrth fynd yno yn ystod y dydd (49%) ac ar ôl iddi nosi (69%). Ar ben hynny, dywedodd 60% o'r rhai a fu'n rhan o'r arolwg nad oeddent wedi bod yng nghanol tref Wrecsam yn ystod y dydd yn y 12 mis diwethaf gan eu bod yn ofni trosedd.

Pam mae hyn yn flaenoriaeth i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol:

Er bod canlyniadau'r arolwg a ddisgrifir uchod yn peri pryder, mae ffigyrau gan Heddlu Gogledd Cymru yn dangos bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Wrecsam, yn enwedig yng nghanol y dref, wedi gostwng yn sylweddol dros y 3 blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'r anghysondeb rhwng y gwir ac ymdeimlad y cyhoedd yn parhau ac mae Wrecsam yn dal i gael ei phortreadu'n negyddol yn y wasg yn lleol ac yn genedlaethol.

Gall ofn o droseddau fod â goblygiadau sylweddol. Gall gael effaith ar ba mor ddeniadol yw ardal fel lle i weithio, byw neu ymweld ag o. Gall fod yn niweidiol i gydlyniant cymdeithasol a gall achosi i unigolion sôn am eu hymdeimladau negyddol sydd, yn ei dro, yn cael effaith ar ymdeimladau pobl eraill.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod Wrecsam yn teimlo fel lle diogel i fyw, gweithio ac ymweld ag o, ac rydym wedi deall bod angen gwella ein gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd i sicrhau eu bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt a'u bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith amlasiantaethol cadarnhaol rydyn ni'n parhau i'w ddatblygu.

Beth fyddwn ni'n ei wneud:

- Datblygu cynllun cyfathrebu amlasiantaethol
- Datblygu cynllun ymgysylltu â'r cyhoedd

Sut fydd llwyddiant yn edrych:

- Mwy o gwsmeriaid yng nghanol y dref
- Cynnydd yn nifer ymgyrchoedd cyfathrebu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a pha mor weledol ydynt; yn ogystal â pharhau i fonitro ac ymateb i sylw'r wasg yn Wrecsam ynglŷn â materion diogelwch cymunedol.
- Cynnydd yn nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn arolygon sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam.